

**Addysg a Chymorth i Deuluoedd**

**Llinell uniongyrchol:** 01656 642622

**Gofynnwch am :** Gwasanaethau Disgyblion

**Ein cyf:**

**Eich cyf:**

**Dyddiad:** 11 Hydref 2020

## **I: Rhieni/Gofalwyr disgyblion sydd ym Mlwyddyn 6**

Annwyl Riant/Gofalwr

### **Derbyniad i ysgol uwchradd - Blwyddyn 7, Medi 2022**

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni a gofalwyr y disgyblion sydd ym mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd ar hyn o bryd.

Os yw eich plentyn i fod i drosglwyddo o ysgol gynradd i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2022, mae'n **rhaid** i chi gwblhau cais.

Gellwch wneud cais ar-lein. Os ydych eisoed wedi ymuno â Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd angen i chi fewngofnodi ac wedyn gellwch gwblhau cais am le mewn ysgol uwchradd ar-lein.

Os nad ydych eisoed wedi llofnodi ar gyfer Fy Nghyfrif, gellwch greu eich cyfrif o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw cyfeiriad e-bost.

Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais am le ym Mlwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd drwy Fy Nghyfrif a gellwch gael tawelwch meddwl, gan wybod bod eich cais wedi dod i law oherwydd, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais, bydd hyn yn cael ei nodi yn y crynodeb o wybodaeth yn Fy Nghyfrif.

Mae'r cais ar-lein yn gweithio yr un mor dda ar gyfrifiadur, tabled neu ddyfeisiadau symudol.

Cyn i chi gwblhau cais, darllenwch y dogfennau, os gwelwch yn dda, ar y wefan:

[www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion](http://www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion)

Mae'r ffurflen gais ar gael mewn copi caled hefyd os gofynnwch, naill ai gan eich ysgol leol neu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ffôn 01656 642622.

Bydd y ffurflen gais ar-lein ar gael drwy Fy Nghyfrif o ddydd Llun, 18 Hydref 2021 am 10am. Nodwch, os gwelwch yn dda, mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau yw

**dydd Gwener, 21 Ionawr 2022 am 4pm.** Gall methu â chyflwyno cais erbyn y dyddiad ac amser hwn arwain at wrthod lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi.

Mae gan bob rhiant/gofalwr yr hawl i fynegi dewis o ran yr ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn ei mynychu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhieni/gofalwyr yn hapus i ddewis eu hysgol addas agosaf (ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, a adwaenir hefyd fel ysgol y dalgylch). Os byddwch yn llwyddiannus wrth wneud cais am le mewn ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf eich plentyn, **ni fydd** y Cyngor fel rheol yn darparu cludiant am ddim, waeth beth fo'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Mae Polisi Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg ar gael o:

[www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/trafnidiaeth-i-ysgol-neu-goleg/](http://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/trafnidiaeth-i-ysgol-neu-goleg/)

**Argymhellir yn gryf eich bod yn enwi ysgol arall fel eich ail ddewis o ysgol.** Gall hon fod yn ysgol addas agosaf ar gyfer eich plentyn neu ysgol arall. **Nid yw cyfyngu eich dewis i un ysgol yn unig yn gwella eich gobeithion o ennill lle i'ch plentyn yn yr ysgol honno.** Nodwch nad oes hawl awtomatig i ddisgyblion, sydd â brodyr a chworydd mewn ysgol, gael lle yn yr ysgol honno.

Os bydd ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, h.y. os yw'r galw am leoedd yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn defnyddio ei feini prawf gormod o alw i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael. Mae Polisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2022-2023 yn nodi'r rhestr lawn o feini prawf ar gyfer gormod o alw.

Corff llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol honno. Felly, os ydych yn dymuno gwneud cais am le yn yr ysgol honno, bydd angen i chi gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol. Mae'r meini prawf derbyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn wahanol i'r meini prawf ar gyfer yr ysgolion uwchradd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae copi o brospectws 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor 2022-2023, sy'n amlinellu'r polisi derbyn ac yn rhoi gwybodaeth arall ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a rhieni/gofalwyr, ar gael o [www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion](http://www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion) neu, fel arall, ffoniwch 01656 642622, os gwelwch yn dda, i ofyn am gopi caled.

Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth benodol ynghylch y broses dderbyn, anfonwch e-bost, os gwelwch yn dda, i [pupilservices@bridgend.gov.uk](mailto:pupilservices@bridgend.gov.uk)

Yn gywir



**Robin Davies,**  
**Rheolwr Grŵp (Cymorth Busnes)**

## Education and Family Support

Direct line: 01656 642622

Ask for: Pupil Services

Our ref:

Your ref:

Date: 11 October 2021

## To: Parents/Carers of current Year 6 pupils

Dear Parent/Carer

### Admission to secondary school - Year 7, September 2022

This letter contains important information for parents and carers of pupils currently in Year 6 of primary school.

If your child is due to transfer from a primary school to Year 7 at a secondary school in September 2022, you **must** complete an application.

You are able to apply online. If you have already signed up to My Account on the Bridgend County Borough Council website, you will need to log in and you can then complete an online application for a secondary school place.

If you have not already signed up to My Account, you can create your account from the Bridgend County Borough Council website. All you need is an email address.

It is quick and easy to apply for a Year 7 secondary school place through My Account and you can have peace of mind knowing that your application has been received because once you have submitted the application, this will be indicated in your My Account summary information.

The online application works equally as well across computer, tablet or mobile.

Before you complete an application, please read the documents on the website:  
[www.bridgend.gov.uk/schooladmissions](http://www.bridgend.gov.uk/schooladmissions)

The application is also available as a hardcopy form upon request, either from your local school or from Bridgend County Borough Council on telephone number 01656 642622.

The online application will be available through My Account from Monday, 18 October 2021 at 10am. Please note that the deadline date for completed applications is **Friday, 21 January 2022 at 4pm**. Failure to submit an application by this date and time may result in your child being refused a place at the school of your choice.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidi testun: Rhwch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhwch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

All parents/carers have the right to express a preference for the school they wish their child to attend. In most cases, parents/carers are happy to choose their nearest suitable school (for English-medium secondary schools, this is also known as the catchment school). If you are successful in applying for a place at a school that is not your child's nearest suitable school, the Council **will not** normally provide free transport, irrespective of the distance from home to the school. The Home-to-school/college Transport Policy is available from:

[www.bridgend.gov.uk/schooltransport](http://www.bridgend.gov.uk/schooltransport)

Where a school is oversubscribed, ie the demand for places is greater than the number of places available, the Council will apply its oversubscription criteria to allocate the places available. The Council's School Admissions Policy 2022-2023 identifies the full list of oversubscription criteria. **It is strongly recommended that you select another school as your second preference school.** This can be the nearest suitable school for your child or another school. **Limiting your choice to just one school does not improve your prospects of gaining a place for your child in that school.** Please note that there is no automatic right for pupils with siblings in a school to be allocated a place at that school.

The governing body of Archbishop McGrath Catholic High School is the admission authority with responsibility for all admission arrangements for that school. Therefore, if you wish to apply for a place at that school, you will need to contact the school directly. The admission criteria for Archbishop McGrath Catholic High School are different from the criteria for the other secondary schools in Bridgend.

The Council's 'Starting School' prospectus 2022-2023, which outlines the admissions policy and provides other information in relation to the services provided for children and parents/carers, is available on [www.bridgend.gov.uk/schooladmissions](http://www.bridgend.gov.uk/schooladmissions) or, alternatively, please telephone 01656 642622 to request a hardcopy.

If you should require further, specific information in relation to the admissions process, please email [pupilservices@bridgend.gov.uk](mailto:pupilservices@bridgend.gov.uk)

Yours faithfully

Robin Davies,  
Group Manager (Business Support)

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidi testun: Rhwch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhwch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.